## Cyngor Cymuned PENTRAETH Community Council

## SWYDD WÂG / VACANT POST

# Clerc Cyngor Cymuned a Swyddog Ariannol Cyfrifol

### Graddfa Gyflog Scp.13 £28,163 Pro rata (£14.60 yr awr) a £5 yr wythnos lwfans gweithio o'r cartref. Cyfartaledd o 10 awr yr wythnos (37 awr llawn amser cyfwerth)

Mae Cyngor Cymuned Pentraeth am benodi person egnïol a brwdfrydig i'r swydd uchod. Pentrefi bychain ar yr ochr ddwyreiniol Ynys Môn yw Pentraeth a Rhoscefnhir gyda phoblogaeth o tua 1,000. Mae'r Cyngor am benodi Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol gyda phrofiad addas, i gymryd cyfrifoldeb am bob agwedd o reoli, swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Cyngor.

Mae 11 o aelodau ar Gyngor Cymuned Pentraeth, ac mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y Neuadd Goffa Pentraeth ar y dydd Mercher olaf o bob mis (heblaw mis Awst a mis Rhagfyr). Mae'r rhain yn gyfarfodydd cyhoeddus y mae gan etholwyr hawl i'w mynychu a gwrando ar drafodaeth fusnes y cyngor. Mae'r cyfarfod misol hefyd ar gael ar-lein dros Zoom.

Mae gan y Cyngor Cymuned ei gwefan ei hun, www.pentraeth-cc.uk ac mae gofyn i'r Clerc roi'r wybodaeth ddiweddaraf arni. Mae hyn yn cynnwys uwchlwytho agenda a chofnodion cyfarfodydd y cyngor.

Mae'n hanfodol bod yr ymgeisydd yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg. Cynhelir cyfarfodydd yn ddwy-ieithog gyda chyfieithydd yn bresennol a darperir gohebiaeth gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd yn ddwyieithog. Byddai gwybodaeth am ddeddfwriaeth a gweithdrefnau Llywodraeth Leol yn fantais.

Dylai'r ymgeisydd fod yn fedrus wrth ddefnyddio rhaglenni Microsoft gan gynnwys Word ac Excel (taenlenni ariannol).

### Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau - hanner dydd, ddydd Llun, 7.7.25

Am ragor o fanylion, ffurflen gais neu sgwrs anffurfiol,
cysylltwch â'r clerc, Enid M Williams ar **01248722535 neu 07789963396 neu**
**ar E-bost: clerc@pentraeth-cc.uk** neu ar
enidbryn@btinternet.com
**neu ar wefan y Cyngor ar**
**www.pentraeth-cc.uk**